# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 28 IONAWR 2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Jason Wayne Parry

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu

- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi nodi collfarn am drosedd o dan adran 4 Deddf Trefn Cyhoeddus 1986 ar ei ffurflen gais nad oedd wedi ei gynnwys ar y cofnod DBS.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd pob sefyllfa yn fanwl yn eu tro ac amlinellodd na dderbyniodd gollfarn am fethu rhoi gwybodaeth ynghylch hunaniaeth gyrrwr ond hysbysiad cosb benodedig a phwyntiau ar ei drwydded. Ategodd hefyd nad oedd yn gyrru cerbydau yn rheolaidd ac mai gwaith gyrru wrth gefn y byddai yn wneud fwyaf.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn 2012 am drosedd o dan Adran 4 o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.Ym mis Hydref 2016, derbyniodd 4 pwynt cosb ar ei drwydded gyrru am dorri terfyn cyflymder ar ffordd gyhoeddus. Ystyriwyd 6 pwynt ychwanegol a dderbyniodd ym mis Mawrth 2018 am dramgwyddo gofynion ynghylch rheoli cerbyd, ffonau symudol ac ati ynghyd a 6 pwynt pellach am fethu a rhoi gwybodaeth ynghylch hunaniaeth gyrrwr.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr

ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 - methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr yn cael ei gynnwys. Nodir ym mharagraff 12.3 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol unigol ac nad ydyw wedi bod yn rhydd o gollfarn am oleiaf 6 mis.

Ystyriwyd amod 6 o amodau trwydded gyrru cerbyd hacni a hur preifat, lle nodi'r bod gofyn i yrrwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl derbyn collfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig. Os canfyddir bod tor-amod, gall paragraff 17.1 o'r Polisi fod yn berthnasol lle amlinellir na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu oni bai bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn o 2012 yn ymwneud a thrais, ond gan fod cyfnod o 6 mlynedd wedi pasio ers y digwyddiad (tu hwnt i gyfnod 3 blynedd) nid oedd paragraff 6.5 yn berthnasol ac felly roedd yr Is bwyllgor yn fodlon nad oedd yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried yr arnodiadau / ardystiadau (endorsements) gyrru, daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad nad oeddynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwrthod, er yn destun pryder. Amlygwyd bod paragraff 13.1 o'r Polisi yn diffinio 'mân droseddau traffig' fel troseddau lle mae'r ymgeisydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Er hynny, nid yw'n dilyn bod trosedd sydd yn denu 4 pwynt cosb neu fwy yn cyfrif fel trosedd traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Diffinnir 'trosedd traffig difrifol' ym mharagraff 12.2 ac nid yw'r materion gyrru o Hydref 2016 a Mawrth 2018 yn disgyn o fewn y diffiniad hwnnw. At ddibenion y polisi, ystyriwyd mai arnodiad Mai 2018 yn unig oedd yn ymwneud a throsedd traffig difrifol a gan fod yr arnodiad yn ddigwyddiad o dros 10 mis yn ôl (tu hwnt i'r cyfnod 6 mis), nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 12.3 yn sefyll.

Yn dilyn cadarnhad gan yr ymgeisydd mai dirwy drwy rybudd cosb benodedig a phwyntiau yn unig a dderbyniodd mewn perthynas â'r arnodiadau (ac nid collfarn droseddol), nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod amod 6 o'r drwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat, yn dechnegol wedi ei dorri. Er hynny, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, fel ymarfer da, y dylid adrodd ar unrhyw fater ac argymhellwyd, bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw arnodiadau i'r dyfodol.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd

- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd cynrychiolydd / cyflogwr yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a chynnig eglurhad am y troseddau gyrru. Amlygodd bod Llys Ynadon Caernarfon wedi caniatáu i'r ymgeisydd gadw ei drwydded oherwydd ei amgylchiadau personol. Eglurodd y byddai nifer o'r pwyntiau ar y drwydded wedi ei diddymu erbyn diwedd mis Chwefror fyddai, o ganlyniad yn gadael cyfanswm o 5 pwynt. Amlygodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd wedi derbyn cwynion am Mr A ac ategodd ei fod yn gymeriad hoffus, cwrtais a dibynnol.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- llythyr geirda
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru yr ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am oryrru ar ddau achlysur ym mis Ionawr 2016 (daeth y pwyntiau hyn i ben yn Ionawr 2019). Yn mis Chwefror 2016 derbyniodd 3 pwynt am oryrru (dod i ben Chwefror 2019) a pum pwynt pellach ym mis Gorffennaf 2016 (dod i ben Gorffennaf 2019). Nid oedd collfarnau, rhybuddion nac arnodiadau eraill gan yr ymgeisydd.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Amlygwyd nad yw SP30 (goryrru) yn cael ei gynnwys yn y rhestr ac ymhellach ym mharagraff 13.1 nodir bod troseddau traffig sydd heb eu rhestru yn y Polisi yn cael eu trin fel 'mân droseddau traffig'. Ym mharagraff 13.3 nodir y gall

mwy nag un 'mân drosedd traffig' (gan gynnwys goryrru) arwain at wrthod cais ac os oes mwy na dwy drosedd a/neu gyfanswm 6 pwynt ar y drwydded, caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at Is-bwyllgor.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y 4 digwyddiad o oryrru yn 2016 yn amlygu bod paragraff 13.3 yn berthnasol i'r drafodaeth. Er hynny, nid yw'r paragraff yn nodi y dylid gwrthod y cais ac mai opsiwn posib yw hynny. Penderfynwyd mai trothwy yw 'dau drosedd a/neu 6 pwynt ar y drwydded' ar gyfer cyfeirio ac nid trothwy i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Cytunodd yr Is-bwyllgor bod y cais wedi cyrraedd trothwy cyfeirio oherwydd bod yr ymgeisydd wedi cael ei ddal yn goryrru pedair gwaith yn 2016 gydag 8 pwynt yn fyw ar ei drwydded. Serch hynny, nodwyd y byddai 3 pwynt arall yn cael eu diddymu cyn diwedd mis Chwefror fyddai yn gadael cyfanswm o 5 phwynt ar y drwydded. Ystyriwyd hefyd mai pwyntiau yn unig a dderbyniodd yr ymgeisydd ac nid collfarnau troseddol am oryrru.

Wedi pwyso a mesur y wybodaeth a gyflwynwyd, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y troseddau goryrru mor ddifrifol fel bod angen gwrthod y cais.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.35 y.h.

**CADEIRYDD**